**GORCHYMYN (DIRYMU, AMRYWIO, CYFYNGIADAU AROS A LLWYTHO) 2025**

**HYSBYSIAD (CROESFAN BARALEL AR GYFER BEICWYR A CHERDDWYR) 2025**

**A HYSBYSIAD (LLWYBR A RENNIR GAN GERDDWYR / BEICWYR) 2025**

**(DEPO A CHANOLFAN REOLI'R METRO FFORDD BLEDDYN, FFYNNON TAF)**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Yn rhan o ddatblygiad Canolfan Reoli a Depo'r Metro gwerth £100 miliwn yn Ffynnon Taf, ymrwymodd y Cyngor i gytundeb Adran 278 gyda chwmni Trafnidiaeth Cymru yn unol â Deddf Priffyrdd 1980. Arweiniodd hyn at awdurdodi Trafnidiaeth Cymru i wneud newidiadau parhaol i'r briffordd a fabwysiadwyd yn gyhoeddus yn Ystad Ddiwydiannol Heol Moy, yn fwy penodol ar hyd Ffordd Bleddyn ger Gorsaf Reilffordd Ffynnon Taf.

Gyda’r prosiect bron wedi’i gwblhau, rydyn ni (“y Cyngor”) yn cyflwyno’r cynigion isod i reoli symudiad cerbydau (gan gynnwys cerddwyr a beicwyr) ar hyd Ffordd Bleddyn yn Ffynnon Taf. Mae'r newidiadau yma'n angenrheidiol i sicrhau trosglwyddiad diogel ac effeithiol ar ôl cwblhau'r gwaith Adran 278 wedi'i grybwyll uchod.

Dyma'r cynigion:

- Creu llwybr beicio defnydd a rennir ar ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Bleddyn, gan gysylltu Llwybr Taith Taf (Llwybr 8 NCN) a Heol Caerdydd
- Sefydlu man croesi paralel ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Darparu man aros cyfyngedig gyferbyn â Gorsaf Drenau Ffynnon Taf at ddibenion codi a gollwng.
- Cynnwys cyfyngiadau dim llwytho/dadlwytho i wella llif rhydd traffig cerbydau
- Ac yn olaf, ail-gyflwyno'r cyfyngiadau aros ar hyd Ffordd Bleddyn yn dilyn newidiadau a wnaed i drefn y briffordd.

Cynigir y mesurau yma yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 i hwyluso taith traffig ac atal y tebygolrwydd o berygl; eu bwriad hefyd yw annog dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, gan hefyd wella diogelwch holl ddefnyddwyr y priffyrdd.

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(TAFFS WELL METRO DEPOT AND CONTROL CENTRE FFORDD BLEDDYN, TAFFS WELL)**

**(REVOCATION, VARIATION, WAITING AND LOADING RESTRICTIONS) ORDER 2025**

**(PARALLEL CROSSING POINT FOR CYCLISTS AND PEDESTRIANS) NOTICE 2025**

**AND (SHARED PEDESTRIAN AND CYCLING ROUTE) NOTICE 2025**

## STATEMENT OF REASONS

As part of the £100m Metro Depot and Control Centre development based in Taff's Well, the Council entered into a Section 278 agreement with Transport for Wales ("TfW") pursuant to the Highway Act 1980. This authorised TfW to make permanent alterations to the publicly adopted highway within Moy Road Industrial Estate, more specifically along Ffordd Bleddyn near Taff's Well Railway Station.

With the project nearing completion, we ("the Council") bring forth the below proposals to control the movement of vehicles (including pedestrians and cyclists) along Ffordd Bleddyn in Taff's Well. These changes are necessary to ensure a safe and effective handover following completion of the Section 278 works mentioned above.

The proposals include:

- Creating a shared-use cycle track on the northeastern side of Ffordd Bleddyn, connecting the Taff Trail (NCN Route 8) and Cardiff Road.
- Establishing a parallel crossing point for pedestrians and cyclists.
- Providing a limited waiting bay opposite Taff's Well Train Station for pick-up and drop-off purposes.
- Inclusion of no loading/unloading restrictions to improve the free flow of vehicular traffic
- And lastly, re-introducing the waiting restrictions along Ffordd Bleddyn following alterations made to the highway layout.

These measures are proposed under Section 1 of the Road Traffic Regulation Act 1984 to facilitate the passage of traffic and prevent the likelihood of danger; they are also intended to encourage sustainable modes of transport, whilst improving the safety of all highway users